**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

25 Mai 2023

Annwyl Weinidog

Ystyriodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith lythyr y Prif Weinidog at y Llywydd ynghylch Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch ynghylch y mater hwn.

Mae llythyr y Prif Weinidog yn awgrymu y dylai fod "cyfnod rhesymol" o "chwe mis fel arfer" rhwng pasio a chyhoeddi deddfwriaeth sy'n effeithio ar fasnach a dod â'r ddeddf i rym. Pan wnaethoch ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 29 Medi 2022, fe gyfeirioch at hyn fel cyfnod segur a chadarnhau y byddai'n berthnasol i'r Bil Cynhyrchion Plastig Untro.

Fe ddywedoch chi wrth y Pwyllgor na fyddai cyfnod gras i fusnesau oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth. Ychwanegoch y byddai'r chwe mis o gyfnod segur yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r cyfnod pontio.

Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan randdeiliaid ynghylch yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith cyflenwyr a manwerthwyr, dywedoch y byddai Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r chwe mis o gyfnod segur i barhau i weithio gyda gweithgynhyrchwyr busnes, yr holl grwpiau sector cyhoeddus a chymunedau, a grwpiau nodweddion gwarchodedig i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i gefnogi'r Bil.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi diweddariad manwl i'r Pwyllgor ar unrhyw waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar ddatblygu'r canllawiau manwl hyn. Hoffwn hefyd gael diweddariad ar unrhyw waith a wnaed ers pasio'r Bil i godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau ac unrhyw waith sydd i'w wneud cyn diwedd y cyfnod o chwe mis. Hoffwn hefyd i chi gadarnhau eich

bod yn dal i fwriadu gwneud rheoliadau yn cyflwyno gwaharddiad ar rai plastigau untro cyn gynted ag y bydd y chwe mis o gyfnod segur ar ben.

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.